**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

11 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Mehefin ynglŷn â'r fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau).

Nodaf gais y Pwyllgor bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddarparu ymateb o sylwedd mewn perthynas â nifer o argymhellion sy'n ymwneud â Chymru, ac nad ydynt yn argymhellion sy'n destun trafodaethau rhynglywodraethol parhaus na phrosesau craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am y gwaith amlwg sydd wedi'i gwblhau o ran gwahanu'r materion hyn.

Serch hynny, er fy mod yn gwerthfawrogi rhesymeg y Pwyllgor dros ofyn am ymatebion i rai argymhellion ar hyn o bryd, oherwydd bod y materion hyn wedi codi yn rhan o'r broses graffu ar y fframweithiau cyffredin, mae'n ddrwg gen i na allaf ymateb yn ffurfiol i unrhyw argymhellion a wneir **yn rhan o'r broses hon** nes bod pob deddfwrfa yn y DU wedi cael cyfle i gwblhau proses graffu.

Fel y gwyddoch, mae Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon hefyd yn craffu ar y fframweithiau. Bydd angen inni aros i'w pwyllgorau gwblhau prosesau craffu cyn y gallwn ymateb i'ch argymhellion. Cytunwyd ar y dull hwn o ran ymateb i argymhellion pwyllgorau ar sail pedair gwlad ac mae hyn yn cyd-fynd ag ysbryd gweithio a chonsensws pedair gwlad sy'n ymgorffori'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo argymhelliad yn ymwneud â chamgymeriad ffeithiol sy'n peri risg i enw da un neu fwy o'r Llywodraethau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf felly yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd holl ddeddfwrfeydd y DU wedi rhannu eu hargymhellion ac unwaith y bydd y pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ar y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r fframweithiau mewn ymateb i'r argymhellion hynny.

Rwy’n ymrwymo i roi ymateb llawn cyn gynted ag y bo’n ymarferol, ond gofynnaf ichi dderbyn y llythyr hwn dros dro.

Yn y cyfamser, os oes materion brys sy’n ymwneud â pholisi yr hoffech chi wybodaeth neu eglurhad yn eu cylch, ysgrifennwch ataf a byddaf yn hapus i ymateb i’r rhain y tu allan i’r broses graffu ar y fframweithiau.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services